Aeth Pedr ac Ioan un dydd

Caneuon Ffydd: Rhif 404

Aeth Pedr ac Ioan un dydd
i'r demel mewn llawn hyder ffydd
i alw ar enw Gwaredwr y byd,
i ddiolch am aberth mor ddrud.

Fe welsant ŵr cloff ar y llawr,
yn wir, 'roedd ei angen yn fawr;
deisyfodd elusen, rhyw gymorth i'w angen,
a Phedr atebodd fel hyn:

"'Does gennyf nac arian nac aur,
ond rhywbeth mwy gwerthfawr yn awr:
yn enw Iesu Grist o Nasareth,
saf ar dy draed."

Aeth dan rodio a neidio a moli Duw,
rhodio a neidio a moli Duw,
"Yn enw Iesu Grist o Nasareth,
saf ar dy draed."

ANAD.
cyf. OLIVE EDWARDS

MYFYRDOD

Dyma hanes cyfarwydd o lyfr yr Actau (pennod 3), sydd wedi ei osod ar gân ar ein cyfer yn yr emyn hwn ac sy'n llawn asbri a bywiogrwydd. Mae gosod gwirioneddau a straeon y Beibl ar gân yn hen draddodiad ac yn gymorth mawr iawn i'r cof, ac yma i'n mwynhad o'r stori. Cawn rannu yn llawenydd y dyn cloff o gael ei iachâu wrth ganu'r pennill olaf, er enghraifft, a sioncrwydd yr alaw yn peri bod yn rhaid i ninnau symud hefyd, onid 'neidio a moli Duw' fel y gwnaeth ef.

Mae sylwi ar hanes y dyn cloff hwn, na wyddom ni mo'i enw, yn rhoi golwg inni ar y newid y gall Iesu Grist ei wneud ym

mywydau pobl. Cardotyn cloff oedd hwn a arferai gardota wrth Borth Prydferth y deml, lle digon clyfar i fod yn cardota a dweud y gwir, gan y dylai pobl grefyddol ar eu ffordd i'r deml fod yn fwy parod i roi elusen iddo.

Ond nid elusen sydd gan Pedr ac Ioan ar ei gyfer pan welan nhw ef ar eu ffordd i'r deml, rhywbeth a fyddai'n para dros dro yn unig fyddai hynny. Yn lle hynny maen nhw'n cynnig y peth mwyaf gwerthfawr oedd ganddyn nhw, i'w roi iddo, a chan beri fod y cardotyn yn edrych arnyn nhw maen nhw'n codi ei obeithion: '"Arian ac aur nid oes gennyf; ond yr hyn sydd gennyf, hynny yr wyf yn ei roi iti; yn enw Iesu Grist o Nasareth, cod a cherdda"' (Actau 3:6). Mae e'n cael cynnig trysor a fydd yn para am byth, trysor yn y nef na fydd na phryf na rhwd yn ei ddifa (Mth. 6:19–21). Mae e'n cael cynnig yr iachawdwriaeth sy'n dod trwy ffydd yn Iesu Grist o Nasareth.

Dychmygwch y fath olygfa wedyn wrth iddo godi ar ei draed a gwneud tipyn o '*scene*' a thynnu sylw ato'i hun. 'Aeth dan rodio a neidio a moli Duw'; allai e ddim cadw'n llonydd wedi cael y fath rodd. 'Dewch i mewn i'w byrth â diolch ac i'w gynteddau â mawl' yw gorchymyn y Salm (100:4), a chafodd hwn wneud yn union hynny gyda'r un llawenydd ag y bwriadodd Duw inni ddiolch iddo a'i foli.

Caiff ei ddwyn wedyn i mewn dros drothwy'r deml yng nghwmni Pedr ac Ioan. Â i mewn trwy'r Porth Prydferth hwn yr oedd o wedi eistedd y tu allan iddo'n cardota ers blynyddoedd o bosibl. Ni fu i mewn o'r blaen, doedd dim croeso yn y deml i'r cloffion. Ond mae croeso i bawb yn Iesu Grist, ac ef ei hun yw ein Porth Prydferth ninnau at Dduw y Tad. Fe drodd y Golgotha erchyll hwnnw yn lle o brydferthwch i ni, a'r groes yn borth inni ddod trwyddo ef at y Tad.

GWEDDI

Cymer fi yn eiddo iti, Arglwydd, wrth imi ildio i ti. Gad imi ymateb yn llawen i'th gynnig o iachawdwriaeth a chyflawnder – yr hyn sy'n fwy gwerthfawr nag arian ac aur. Gad i mi groesi drosodd efo ti fel y cardotyn hwn, trwy Borth Prydferth dy gyfiawnder ar y groes i dy deyrnas di dy hun, a gad imi gael y fraint fel Pedr ac Ioan un dydd o gynnig i eraill ddod ar fy ôl. Yn enw Iesu Grist o Nasareth. Amen.